

y dyfodol yn  
eich dwylo

Etholiadau Llywodraeth Leol  
Mai 2012  
**Maniffesto**



**cyfeillion y ddaear cymru**  
**friends of the earth cymru**

# Rhagarweiniad

**Mae Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn teimlo effaith toriadau gwario'r sector gyhoeddus, gydag ariannu grant gan Lywodraeth Cymru yn gwastatau ar £5.2 biliwn o 2012-13 i 2014-15<sup>1</sup>.**

Yr her i gynghorau yw nid i reoli'r wasgfa gyllidebol drwy leihau gwasanaethau o ganlyniad i ymateb yn fyrbwyll, ond i ddefnyddio'r cyfnod hwn o gyfyngiad ariannol fel cyfle i ddarparu gwasanaethau ardderchog mewn ffyrdd mwy dychmygus ac effeithiol.

Mae llywodraeth leol yn bwysig ym mherfformiad amgylcheddol Cymru. Ar wahân i allyriadau uniongyrchol, caiff polisïau awdurdodau lleol ar wastraff, trafnidiaeth ac addysg effaith sylweddol ar allyriadau tŷ gwydr. Mae'r Mesur Datblygu Cynaliadwy yn debygol o'i gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud datblygu cynaliadwy yn egwyddor ganolog eu trefniadau.

Bydd hyn yn achosi newidiadau mawr i ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, a bydd y rhai hynny sy'n ennill y blaen yn gynnwys cynhaeafu'r manteision ar gyfer swyddi gwyrdd, arbedion costau ac allyriadau is.

Mae'r manifesto hwn yn nodi'r meysydd lle mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn credu y dylai awdurdodau lleol flaenoriaethu gweithredu a fydd yn lleihau effaith amgylcheddol eu gweithrediadau yn ogystal â gwneud arbedion ariannol. Bydd cymryd y camau hyn hefyd yn gwella lles trigolion - ac yn gwneud y cynghorau mwyaf uchelgeisiol yn lleoedd y bydd pobl am fyw a gweithio ynddynt.



Llun gyda diolch i Jelle Drok

# Awdurdodau lleol yn arwain y ffordd

## Ymrwymiad cryf gan Cabinet a staff:

Mae bod â staff sydd ag ymwybyddiaeth dda o berfformiad amgylcheddol uchel yn bwysig fel rhagofyniad ar gyfer y rhan fwyaf o argymhellion sy'n dilyn. Mae hyn yn golygu arweiniad gan bob aelod etholedig ar bob awdurdod lleol yng Nghymru. Ond yn fwy pwysig, mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i Arweinyddion Cyngor a Chabinetau fod yn benderfynol wrth hyrwyddo perfformiad amgylcheddol sy'n rhoi esiampl da yn eu rôl fel stiwardiaid ein planed ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Strategaeth Amgylcheddol:

Dylai pob awdurdod lleol baratoi a chyhoeddi strategaeth amgylcheddol sy'n ymgorffori targedau y gellir eu mesur ac yn erbyn pa rai y gallant fod yn atebol iddynt. Mae Cyngor Sir Caerlŷr yn rhoi esiampl dda<sup>2</sup>.

## Lleihau allyriadau:

Dylai awdurdodau lleol osod targedau i leihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr gan o leiaf 40% erbyn 2020, a dylent lunio cynllun i gyflawni'r toriadau hyn. Mae Cyngor Caerdydd eisoes wedi gosod targed i leihau allyriadau gan 60% erbyn 2018<sup>3</sup>, tra bod gan Wrecsam<sup>4</sup> a Sir y Fflint<sup>5</sup> dargedau i leihau allyriadau o adeiladau cyhoeddus gan 5% bob blwyddyn. Dylai awdurdodau lleol hefyd osod targedau ar gyfer lleihad cyffredinol allyriadau ar draws eu hardaloedd ac ystyried gosod 'cyllidebau carbon' yn unol ag argymhellion Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU.

## Systemau Rheoli Amgylcheddol Da:

Mae'r rhain yn ffyrdd da i sicrhau gwelliant amgylcheddol parhaus. Dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru fod wedi cytuno i un o'r rhain. Mae cynllun y Ddraig Werdd<sup>6</sup> yn enghraifft dda. Mae Cyngor Sir Powys, ynghyd â Chyfarwyddiaethau Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe a Bro Morgannwg, i gyd wedi cyrraedd lefel uchaf y cynllun hwn. Dylai allyriadau o gymudo gael eu cynnwys yn ffurfiol yn systemau rheoli amgylcheddol pob awdurdod lleol.

## Gwyrddu caffael:

Mae gan awdurdodau lleol nerth pwrcasu sylweddol. Dylent ddefnyddio hyn er budd yr amgylchedd, drwy weithio gyda chyflenwyr i leihau effaith amgylcheddol nwyddau a gwasanaethau. Gallai enghreifftiau gynnwys gwneud ymrwymiad i ddefnyddio dim ond cynhyrchion coed ardystiedig y Cyngor Stiwardiaeth Fforestydd, ddefnyddio bwyd a gynhyrchir yn lleol ar gyfer ysgolion a ffreuturau, a newid y cyflenwr trydan i dariff adnewyddadwy llawn. Mae gan God Caffael Gwyrdd Llundain<sup>7</sup> wybodaeth ddefnyddiol a dolenni i wefannau eraill ynglŷn â chaffael gwyrdd.

## Symud o betrol a disel:

Rydym yn negawd olew brig<sup>8</sup>. Felly, bydd defnydd petroliwm ar gyfer trafniadaeth yn dod yn fwyfwy drud dros amser. Dylai awdurdodau lleol yng Nghymru resymoli eu gweithrediadau i leihau maint a milltiroedd eu cerbydau. Dylai awdurdodau lleol hefyd fuddsoddi mewn cerbydau â thanwydd amgen (yn cynnwys trydan, hydrogen ac LPG) pan a phryd bynnag y byddant ar gael yn fasnachol er mwyn cynyddu eu gallu i wrthsefyll ysgytiadau pris olew.

2. Cyngor Sir Caerlŷr, Strategaeth amgylcheddol 2011-2021

3. Cyngor Caerdydd, Mehefin 2007, Caerdydd yn ymrwmo i doriadau gwerth 60% mewn allyriadau carbon

4. Llywodraeth Cymru, Crynodeb cytundeb canlyniadau Wrecsam

5. Llywodraeth Cymru, Crynodeb cytundeb canlyniadau Sir y Fflint

6. Groundwork Cymru, Green Dragon environmental standard

7. Maer Llundain, Green procurement code

8. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2008, Olew brig

# Ynni

## Buddsoddiad mawr mewn effeithlonrwydd ynni:

Dylai adeiladau awdurdodau lleol, yn cynnwys ysgolion, fod yn enghreifftiau goruchel o effeithlonrwydd ynni. Golyga hyn ganolbwyntio ar safonau uchel iawn ar gyfer:

- insiwleiddio (crogllofftydd a waliau ceudod, a waliau solet ar gyfer eiddo hŷn)
- ffenestri gwydr dwbl
- cysgodi haul ar gyfer ffenestri sy'n wynebu'r de.

Bydd y rhan fwyaf o bencadlysoedd cyngor yn ddigon mawr i fod ag angen Tystysgrifau Arddangos Ynni, felly mae perfformiad da yn bwysig ar gyfer enw da yn ogystal ag ar gyfer yr amgylchedd.

## Cefnogaeth ar gyfer effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi:

Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau caffael swmp yn effeithiol drwy drefnu gosod fesurau effeithlonrwydd ynni trwy gydol y sir (insiwleiddio yn bennaf). Caiff hyn hefyd effaith sylweddol ar leihau tlodi ynni. Mae cynllun "Yma i Helpu" Cyngor Gwynedd<sup>9</sup> wedi darparu insiwleiddio ar gyfer crogllofftydd, waliau ceudod a thanciau dŵr poeth mewn rhagor na 10,000 eiddo preifat ers 2004. Mae ei bartneriaeth â Nwy Prydain wedi lleihau'r gost, gan roi gwerth da ar gyfer trethdalwyr. Dylai awdurdodau lleol integreiddio mentrau adnewyddu tai gyda ffrydiau ariannu eraill gan ymgysylltu â chwmnïau ynni a gweithredu fel cyflenwyr neu bartneriaid ar y Fargen Werdd<sup>10</sup>.

Dylai awdurdodau lleol hefyd ymchwilio posibiliadau gweithio gyda chynlluniau Llywodraeth Cymru megis Arbed a defnyddio gallu prynu llywodraeth leol i wneud i brosiectau effeithlonrwydd ynni ddigwydd.

## Buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy:

Dylai awdurdodau lleol ymrwmo i osod ynni adnewyddadwy ym mhob ysgol a phob adeilad cyngor neu ddaliad tir lle bo hynny'n ymarferol. Bydd gan y rhan fwyaf o ysgolion doeau yn wynebu'r de a fyddai'n addas ar gyfer celloedd PV solar, tra bydd rhai mewn ardaloedd sydd ag adnoddau gwynt da a allai elwa gan dyrbin gwynt.

Mae'r ddau gan Ysgol y Traeth<sup>11</sup> yn y Bermo. Mae gan hyn y fantais ddwbl o addysgu plant am ynni adnewyddadwy a darparu trydan digarbon. Gall awdurdodau fanteisio ar y cynlluniau taliadau cynhyrchu ynni (FiTs) sy'n rhoi taliad am gynhyrchu trydan adnewyddadwy. Gall systemau gwresogi biomas fod yn ddewis cost-effeithlon a chynaliadwy – yn enwedig ar gyfer ardaloedd gwledig gyda chyflenwad biomas lleol da. Mae Llanwddyn ym Mhowys yn enghraifft o hynny<sup>12</sup>.

## Cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy:

Yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol, dylai awdurdodau lleol hyrwyddo polisiau a thargedau rhagweithiol ar adnoddau adnewyddadwy cymedrol a mawr gyda ffafriaeth gyffredinol o blaid adnoddau adnewyddadwy oni bai bod canlyniadau cymdeithasol neu amgylcheddol negyddol enfawr. Dylai'r Cynlluniau Datblygu Lleol hyrwyddo rhwydweithiau cynhesu, oeri a phŵer datganoledig (wedi eu cysylltu â Chwmnïau Gwasanaethau Ynni - gweler isod).

## Dechrau Cwmnïau Gwasanaethau Ynni:

Mae awdurdodau lleol yn brynwyr mawr ar wasanaethau ynni. Dylai'r awdurdodau sy'n gwasanaethu ardaloedd trefol ystyried ffurfio Cwmnïau Gwasanaethau Ynni (ESCO) a allai gyflenwi gwresogi, gwres a phŵer cyfunol, neu ynni o ffermydd gwynt i'r rhanbarth er mwyn darparu ynni carbon isel ar gyfer preswylwyr a busnesau. Mae enghreifftiau da yn cynnwys:

9. Cyngor Gwynedd, Ebrill 2011, Cyngor Gwynedd yn trafod tlodi tanwydd

10. Yr Adran Ynni a Hinsawdd, Awdurdodau Lleol

11. BBC News, Mai 2009, Wind and sun runs school canteen

12. Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, 2004, Astudiaeth achos cynhesu cymunedol biomas gwledig

- Southampton Geothermal Heating Company<sup>13</sup>
- Thameswey Energy<sup>14</sup>, a ddechreuwyd gan Gyngor Bwrdeistref Woking
- The WorksDevelopment yng Nglyn Ebwy, y bwriedir ei wasanaethu gan 'ganolfan ynni ganolog'<sup>15</sup>.

#### Lleihau cost goleuo stryd:

Gallai awdurdod lleol canolig ei faint wario tua £1 miliwn y flwyddyn<sup>16</sup> ar oleuo stryd. Er y bydd bylbiau LED yn dechrau effeithio ar y defnydd o ynni wrth iddynt ddisodli dewisiadau llai effeithlon, mae ffyrdd eraill i leihau'r bil goleuo stryd - a'r canlyniadau amgylcheddol cysylltiedig.

Mae gan Gyngor Sir Nottingham gynlluniau<sup>17</sup> i leihau'r bil goleuo sy'n £5 miliwn gan chwarter drwy:

- Ddiffodd rhai goleuadau pan ystyrir eu bod yn ddiangen:
- Gwanhau rhai goleuadau ar briffyrdd rhwng 10pm a 7am pan na fydd hyn yn effeithio ar ddiogelwch y ffyrdd
- Mewn ymgyngoriad â chymunedau lleol, diffodd goleuadau rhwng canol nos a 5.30am mewn rhai ardaloedd preswyl



Llun gyda diolch i Siân Bowi  
[www.ffotosianbowi.co.uk](http://www.ffotosianbowi.co.uk)

13. Cyngor Dinas Southampton , Geothermal and CHP scheme

14. Thameswey, Who we are

15. The Works, The greener future

16. Wales Online, Rhagfyr 2010, Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn ystyried diffodd goleuadau stryd i dorri ar gostau

17. Cyngor Sir Nottingham, 2011, Street lighting energy saving

# Gwastraff

## Casgliadau ailgylchu wedi eu gwahanu:

Mae awdurdodau lleol wedi gwneud camau breision dros y 10 mlynedd ddiwethaf mewn casglu nwyddau ailgylchadwy sych a gwastraff bwyd, gyda'r cyfartaledd ar draws Cymru yn codi o 9% i bron 50%. Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn pryderu bod nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi newid yn ddiweddar<sup>18</sup> o gasgliadau cartref wedi eu gwahanu i gasgliadau un cwydn gwastraff ailgylchadwy cymysg.

Mae gwastraff ailgylchadwy yn adnodd y gall y defnydd gorau ohono ddiogelu deunyddiau a chreu llawer o swyddi mewn cymunedau yng Nghymru. Nid yw ei wasgu gyda'i gilydd yn ffordd dda i ddiogelu'r adnodd hwnnw<sup>19</sup>. Mae gwerth gwastraff ailgylchadwy cymysg yn sylweddol is na nwyddau wedi'u gwahanu gan fod llawer o halogiad yn digwydd. Hefyd, mae cost cymysgu yn uwch<sup>20</sup>. Mae her gyfreithiol ynglŷn â chymysgu yn mynd rhagddi ar hyn o bryd<sup>21</sup> gan yr ystyrir hyn yn rhywbeth nad sy'n cydymffurfio â Chyfarwyddebau Ewropeaidd, a bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Rheoliadau newydd yn yr haf a fydd yn ei wneud yn ofynnol i gael casgliadau ar wahân wrth ymyl y ffordd.



O ystyried y dystiolaeth yn erbyn casgliadau gwastraff ailgylchadwy cymysg, dylai'r cynghorau sydd ar hyn o bryd yn casglu nwyddau ailgylchadwy cymysg newid i gasglu gwastraff wedi'i wahanu wrth ymyl y ffordd. Yn yr hirdymor bydd y dull hwn yn gwella cyfraddau ailgylchu fel eu bod yn uwch na'r targed statudol presennol, sef 70%, a thuag at ddyhead Llywodraeth Cymru o Gymru dim gwastraff.

## Symud tuag at MBT:

Mae llosgi gwastraff bagiau du yn golygu bod adnoddau y gellid eu hail-ddefnyddio neu eu hailgylchu yn cael eu tynnu allan o'r gadwyn gwerth adnoddau, sy'n mynd yn groes i egwyddorion cynaliadwyedd. Mae hefyd yn cynhyrchu nwyon tŷ gwydr a lludw gwenwynig. Yn ogystal, mae'r seilwaith llosgi yn ddwys iawn o ran cyfalaf ac mae'n agored i risg ariannol uchel, gan ddibynnu ar gyflenwad rheolaidd o wastraff i'w losgi. Mae triniaeth fiolegol fecanyddol (MBT) yn ddewis arall gwell sydd eisoes ar waith ar raddfa fawr ac sydd yn nodweddiadol yn gweithredu ar gostau ymlaen llaw llawer is ac yn defnyddio cytundebau sy'n llawer byrrach na'r rheiny ar gyfer llosgyddion<sup>22</sup>. Dylai'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru gytuno i foratoriwm ar losgi gwastraff gweddillol yng Nghymru ac atal y trafodaethau presennol ynglŷn â llosgyddion.

## Casgliadau bagiau du misol:

Un ffactor y gwyddir sy'n lleihau deilliant gwastraff gweddillol ac yn cynyddu ailgylchu yw lleihau amllder casgliadau gwastraff gweddillol<sup>23</sup>. Mae nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cyflwyno casgliadau gwastraff gweddillol pythefnosol yn llwyddiannus gyda rhai awdurdodau yn ystyried symud i gasglu bob tair wythnos neu'n fisol<sup>24</sup>. Dylai awdurdodau lleol ddechrau'r symudiad at gasgliadau unwaith y mis<sup>25</sup>.

18. Yn cynnwys Bro Morgannwg (o fis Medi 2011), Caerffili a Sir Fynwy

19. Gwerth fesul tunnell fetrig adnoddau ailgylchadwy Bro Morgannwg wedi ei lleihau o £40 i £14.50 yn dilyn newid i'w system

20. Eunomia, Ionawr 2011, Dewisiadau casgliadau ymyl y ffordd: Cymru

21. Ymgrych Dros Ailgylchu Go Iawn (CRR), Rhagfyr 2011, Ymateb CRR i ohiriad adolygiad barnwriaethol

22. Comisiynydd gwaith New Earth Solutions MBT ym Mryste ar gontract 9 mlynedd am arbedion cost "sylweddol iawn" o gymharu â llosgydd. Mae contractau nodweddiadol am losgyddion ar gyfer 25 mlynedd.

23. The Guardian, 26 Ebrill 2007, Casgliadau sbwriel pythefnosol yn golygu rhagor o ailgylchu, medd y Llywodraeth

Hefyd, mae gan 19 o'r 20 o awdurdodau lleol yn Lloegr sydd â'r cyfraddau ailgylchu gorau gasgliadau bob pythefnos

24. Walesonline, 12 Rhagfyr 2011, Casgliadau bin unwaith y mis yn agosau yng Nghymru wrth i gynghorau anelu i dorri costau a chynyddu ailgylchu

25. Cyn belled bod y mesurau diogelwch arferol ar waith ar gyfer casglu gwastraff iechydol mwy rheolaidd

# Trafnidiaeth

## Trafnidiaeth gynaliadwy:

Dylai awdurdodau lleol roi blaenoriaeth uchel i gynyddu defnydd pobl ar fathau o drafnidiaeth gynaliadwy - cerdded, beicio, a theithio ar fws a thrên. Ceir nifer o enghreifftiau o arfer da ledled Cymru y gall awdurdodau lleol ddysgu ganddynt, yn cynnwys cynlluniau rhannu car<sup>26</sup> a chynllun Bwcabus Sir Gaerfyrddin<sup>27</sup>.

## Sustainable transport planning:

Byddai system cynllunio tir sy'n lleihau'r angen i deithio yn rhoi manteision sylweddol i bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ardal yr awdurdod lleol. Yn benodol, dylai awdurdodau lleol alw am ragdybiaeth yn erbyn datblygiadau adeiladu newydd sydd heb wasanaeth trafniadaeth gyhoeddus na chyfleusterau cymunedol da, a fyddai'n dod yn "gynhyrchwyr teithiau".

## Rhagdybiaeth newydd o blaid 20mya:

Un o'r rhesymau a roddir amlaf gan bobl dros fethu â cherdded a beicio yw ofn gwrthdrawiad gyda cherbyd modur. Ers mis Mehefin 1999, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cael y pŵer penodol i glustnodi parthau 20mya heb gyfeirio at Lywodraeth Cymru<sup>28</sup>. Yn wir, dywed canllawiau Llywodraeth Cymru<sup>29</sup>:

"Anogir terfynau cyflymder lleol o 20mya lle y bo'n briodol, yn arbennig mewn sefyllfaoedd lle ceir risg i ddefnyddwyr ffordd sy'n agored i niwed... ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog ac yn cefnogi hyn... Profwyd bod parthau 20mya yn lleihau nifer y bobl a gaiff eu hanafu".

Byddai Cyfeilion y Ddaear Cymru yn dymuno i awdurdodau lleol fabwysiadu agwedd mai 20mya yw'r terfyn cyflymder priodol ym mhob lleoliad trefol a phentrefol oni bai bod achos clir yn erbyn hynny.

## Golwg newydd ar gynlluniau ffyrdd:

Cred Cyfeillion y Ddaear Cymru y dylai awdurdodau lleol ystyried holl effeithiau amgylcheddol ac economaidd pob cynllun i adeiladu ffyrdd newydd. Ychydig bach, os o gwbl, o dystiolaeth sy'n dynodi bod adeiladu ffyrdd newydd yn ddull da o leihau tagfeydd, ac mae digonedd o dystiolaeth bod ffyrdd newydd yn annog rhagor o ddefnydd cerbydau modur a'u bod yn llenwi'n gyflym iawn<sup>30</sup>. Gyda thanwydd trafniadaeth yn mynd yn ddrytach, mae adeiladu ffyrdd newydd yn y rhan fwyaf o achosion yn ddefnydd mwyaf annoeth o adnoddau cyfalaf prin.

## Mannau gwefru cerbydau trydan:

Mae adeiladau awdurdod lleol yn denu nifer fawr o geir. Maent felly'n lleoliadau delfrydol ar gyfer manau gwefru cerbydau trydan, a dylid sefydlu'r rhain er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio cerbydau trydan.

## Codi tâl am barcio busnes:

Cyflwynwyd system ardoll parcio yn y gweithle drwy Ddeddf Trafnidiaeth 2000. Mae'n caniatáu i awdurdodau lleol ddatblygu cynllun trwyddedu sy'n codi tâl am nifer y manau parcio mewn mangreuedd busnes. Rhaid mai diben y cynllun fydd hwyluso cyflawni polisïau trafniadaeth leol. Mae Nottingham wedi dechrau codi tâl am ei gynllun ers 1 Ebrill 2012<sup>31</sup>, ac mae Bryste wedi dechrau ymgynghori<sup>32</sup> ar ei fwriad i gyflwyno'r cynllun.

Dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru ystyried a allai ardoll parcio mewn gweithleoedd gael ei chymhwyso yn eu hardal hwy. Yn benodol, dylai'r awdurdodau hynny sy'n gyfrifol am ardaloedd trefol mawr eu cyflwyno er mwyn hwyluso'r trosglwyddiad i system trafniadaeth fwy gynaliadwy.

26. Cyngor Caerdydd, Cynllun Rhannu Ceir Caerdydd

27. Traveline Cymru, Beth yw Bwcabus?

28. Legislation.gov.uk, Mehefin 1999, Gorchymyn Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Diwygio) 1999

29. Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hydref 2009, Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru

30. Swyddfa'r Cabinet, The fundamental law of traffic

31. My Nottingham, 2011, What is a Workplace Parking Levy?

32. This is Bristol, 10 Mawrth 2012, Bristol businesses facing workplace parking levy



Cyfeillion y Ddaear Cymru  
33 Balconi Arcêd y Castell  
Caerdydd CF10 1BY

Ffôn: 02920 229577